Ebrill – Hydref 2023

# Iechyd a Diogelwch ar fferm

Cyflwynir mewn partneriaeth â Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth Cyswllt Ffermio.

PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU






## Hyfforddiant

**Brian Rees (Mentor Iechyd a Diogelwch Cyswllt Ffermio ac aelod o Bartneriaeth Diogelwch Fferm Cymru) – cyflwynodd hyfforddiant i fyfyrwyr Milfeddygol ac Amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.**

Mae'r IOSH Rheoli'n Ddiogel yn gwrs ar-lein gorfodol i'r myfyrwyr hyn, ond teimlai'r darlithwyr nad yw'r cwrs hwn yn rhoi hyfforddiant penodol ar ddiogelwch ar y fferm, a thrin da byw yn benodol. Mae ystadegau HSE ar anafiadau angheuol yn cynnwys da byw fel un o brif achosion marwolaethau ar ffermydd ym Mhrydain Fawr, felly unwaith eto roedd angen hyfforddiant mwy ymarferol a phenodol i drin da byw. O'r 26 myfyriwr ar y cwrs, dim ond 2 oedd â phrofiad o weithio ar fferm.

## Rhwydwaith Arddangos

Mae **60% o'r gwiriadau Iechyd a Diogelwch** ar y Ffermydd Arddangos wedi'u cwblhau.

Roedd 5 o'r prosiectau ag agwedd Iechyd a Diogelwch yn cynnwys:

- **gweithio gydag anifeiliaid**
- **iechyd bodau dynol**
- **newid arferion ar gyfer atal codymau**

Mae rôl technoleg i wella iechyd a diogelwch wrth weithio gydag anifeiliaid yn ganolbwynt allweddol ar fferm Tanygraig, Llanbedr Pont Steffan lle mae'r prosiect yn anelu at ateb y cwestiwn: 'A fydd twf cyfadferol yn arwain at leihau cost porthi heb effeithio ar berfformiad cyffredinol?'

Mae'r prosiect yn gofyn i ddata gael ei gasglu yn aml ar Enillion Pwysau Byw Dyddiol gwartheg sugno Belgian Blue ac felly defnyddir pwyswr gwartheg awtomatig ar gyfer y prosiect, lle mae'r gwartheg yn mynd i mewn i'r monitor bîff i yfed dŵr ac mae eu pwysau'n cael eu monitro bob dydd a'u hadrodd yn ôl i'r ffermwr drwy ap. Nod hyn fydd lleihau'r angen o bwyso gwartheg drwy'r craets, gan leihau'r risg o weithio gydag anifeiliaid a diogelu'r ffermwr sy'n gweithio gyda nhw ar fferm Tanygraig.

## E-ddysgu

**Cwblhawyd 103 o gyrsiau yn ystod y cyfnod.**

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diogelwch ar y Fferm – Tryciau Codi Telesgopig
- Iechyd meddwl mewn amaethyddiaeth
- Iechyd a Diogelwch – rheoli risg mewn coedwigaeth a ffermio
- Diogelwch bwyd i dyfwyr cynnyrch ffres
- Diogelwch plaladdwyr

### Iechyd a Diogelwch – rheoli risg mewn coedwigaeth a ffermio

Yn y rhan fwyaf o ddiwydiannau, mae marwolaethau ac anafiadau yn gostwng, ond mewn ffermio, mae'r niferoedd wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. "Gall straen gwaith a phwysau ar ffermydd effeithio ar eich iechyd meddwl, gyda straen ac iechyd meddwl gwael yn gysylltiedig â risg uwch o anafiadau a chamgymeriadau pellach. Yn y modiwl hwn, rydym yn ystyried sut y gallwch chi, eich teulu, a'ch staff leihau eich risg, lleihau eich straen a chadw'n iach ac yn ddiogel ar y fferm.

Mae'r modiwl Iechyd a Diogelwch – Rheoli Risg mewn Coedwigaeth a Ffermio yn gwrs e-ddysgu gorfodol i'w gwblhau cyn yr ystod o gyrsiau hyfforddi yn y cnawd sy'n cwmpasu defnydd o beiriannau ac offer, iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf.

## Cynhadledd TB

Aeth Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru i'r gynhadledd TB gyda'r brif neges o ddiogelwch wrth drin gwartheg. Roedd y stondin yn cynnwys amrywiaeth o nwyddau a oedd yn hyrwyddo diogelwch ar y fferm a siaradwyd â'r cynadleddwyr yn benodol am drin da byw, yn enwedig yn ystod profion TB. Roedd y nwyddau'n cynnwys llyfryn diogelwch fferm PDFfC, sut olwg sydd ar fferm dda HSE, arwyddion diogelwch fferm, sticeri stopio'n ddiogel ar gyfer y tractor, a gweithlyfrau'r plant.




## Sioeau




### Sioe Frenhinol Cymru

Lansiodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Lesley Griffiths AS lyfr stori i blant ar ddiogelwch ar y fferm o'r enw **Diolch byth am Bob!** yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf. Mae'r llyfr yn sôn am Bob (ci defaid y fferm) sy'n cadw'r plant allan o berygl ar y fferm. Ysgrifennwyd y llyfr gan Bethan Gwanas ac mae wedi derbyn sawl adolygiad cadarnhaol. Mae'r llyfr ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r **llyfr** wedi cael ei animeiddio ers hynny – ac mae ar gael ar sianel youtube Cyswllt Ffermio.

### Sioeau'r haf

Roedd arddangosiad cymorth cyntaf rhyngweithiol ar stondin Llywodraeth Cymru yn Sioe Môn. Aeth yr hyfforddwr at aelodau'r cyhoedd a gofynnodd iddynt ei helpu gyda'i anafiadau (roedd ganddo anafiadau ffug trwy ddefnyddio prostheteg a gwaed ffug). Mae hyn wir yn ysgogi ymateb gan ffermwyr a chan y cyhoedd.

Y thema yn Sioe Sir Benfro oedd Chwistrellu a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE). Roedd gan yr hyfforddwr yr holl offer PPE sy'n ofynnol i chwistrellu'n ddiogel.

## Mentora

### Mae 182 awr o fentora wedi digwydd

Dyma ambell ddyfyniad o'r dyddiaduron mentora:

> *"Buom yn trafod asesiadau risg, polisïau diogelu, a deall sut i reoli gwirfoddolwyr. Bydd y sawl sy'n cael ei fentora yn gweithio ar yr Asesiadau Risg ar gyfer diogelu ymwelwyr, gweithwyr a gwirfoddolwyr ar y fferm."*

## Arloesi ac Arallgyfeirio Cymru

Mae diogelwch bwyd yn hanfodol i gynhyrchwyr a chyflenwyr wrth amddiffyn defnyddwyr rhag afiechydon neu anafiadau a gludir gan fwyd sy'n gysylltiedig â bwyta bwyd. Gweler isod ddolen i gyflwyniad gan Edward Morgan, Castell Howell yn nigwyddiad Arloesi ac Arallgyfeirio Cymru 2023 yn dangos sut maent yn gweithio ochr yn ochr â Chyswllt Ffermio fel cyflenwyr i gefnogi tyfwyr gyda Diogelwch Bwyd:

Edward Morgan, Castell Howell: Cyfleoedd cynhyrchu i Gymru



